Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Geirfa

Ydych chi erioed wedi meddwl beth yw gwir ystyr geiriau fel **bil**, **dadl** neu **bwyllgor** yn y byd gwleidyddol? Bydd yr eirfa hon yn eich helpu i ddeall y termau allweddol a ddefnyddir yn y Senedd ac mewn seneddau eraill. P'un a ydych yn dysgu am sut mae deddfau'n cael eu gwneud neu am gael gwybod sut mae'r Senedd yn gweithio, bydd y diffiniadau hyn yn ei gwneud yn haws dilyn yr hyn sy'n digwydd a chymryd rhan yn y sgwrs.

### Bil

Deddf arfaethedig sy'n cael ei ystyried gan Senedd Cymru.

### Clymblaid

Math o lywodraeth lle mae dwy blaid wleidyddol neu fwy yn gweithio gyda'i gilydd, fel arfer pan na all unrhyw blaid ar ei phen ei hun gyflawni mwyafrif yn yr etholiad.

### Craffu

Archwilio neu ymchwilio i fater.



**Cydsyniad Brenhinol**

Y Brenin yn arwyddo Bil, gan ei droi'n Ddeddf.

**Dadl**

Trafodaeth rhwng Aelodau. Cynhelir dadleuon yn y Siambr a gall pleidlais eu dilyn.

**Datganoli**

Trosglwyddo pŵer gwleidyddol o lywodraeth ganolog neu senedd i lywodraeth ranbarthol neu leol neu senedd.

**Deddf gan Senedd Cymru**

Bil wedi'i gymeradwyo gan y Senedd ac sydd bellach yn gyfraith i Gymru.

**Deiseb**

Casgliad o lofnodion yn galw am weithred neu newid. Yn y Senedd maent fel arfer yn cael eu hanfon yn electronig, ac os bydd 250 neu fwy o lofnodion yn cael eu cyflwyno, byddant yn cael eu trafod gan Bwyllgor.

**Etholaeth**

Ardal etholiadol y mae Aelod o'r Senedd (AS) yn cael ei hethol i'w chynrychioli.



**Etholiad**

Y broses bleidleisio i ddewis person ar gyfer swydd gyhoeddus.

**FMQs**

Cwestiynau'r Prif Weinidog. Sesiwn wythnosol yw hon pan all Aelodau o'r Senedd ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog yn ystod y Cyfarfod Llawn.

**Llywodraeth**

Yn gyfrifol am reoli'r wlad ac fel rheol mae'n cael ei ffurfio gan y blaid wleidyddol sy'n ennill y nifer fwyaf o seddi mewn etholiad.

**Maniffesto**

Set o nodau a bwriadau gan blaid wleidyddol a'i chynlluniau i gyflawni'r nodau hyn.

**Papur pleidleisio**

Darn o bapur a ddefnyddir i gofnodi dewis pleidleisiwr yn gyfrinachol.

**Plaid**

Mae ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig yn aml yn aelodau o bleidiau gwleidyddol, sef grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un farn am y ffordd y dylid defnyddio pwerau mewn gwlad neu gymdeithas (drwy'r Llywodraeth, llunio polisi ac yn y blaen).

**Prif Weinidog Cymru**

Arweinydd Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

**Procsi (pleidlais)**


Os nad ydych yn gallu bwrw'ch pleidlais yn y cnawd, gallwch ofyn i rywun rydych yn ymddiried ynddynt fwrw'ch pleidlais ar eich rhan. Gall y person hwnnw naill ai fynd i'r orsaf bleidleisio i fwrw'ch pleidlais neu wneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post.

**Pwyllgor**

Grŵp bach o Aelodau o'r Senedd, ar draws gwahanol bleidiau gwleidyddol, sy'n edrych ar bynciau penodol yn fanwl. Maen nhw'n gwneud llawer o wahanol dasgau, gan gynnwys craffu ar y gyllideb a pholisïau Llywodraeth Cymru, dal Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio cyfreithiau arfaethedig (deddfwriaeth).

**Refferendwm**

Pan ofynnir i'r cyhoedd bleidleisio ar gwestiwn neu fater penodol.



**Senedd**

Y corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau gwlad a'i phobl. Mae'n deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Senedd Cymru neu Welsh Parliament yw'r Senedd. Enw ei chartref yng Nghaerdydd yw'r Senedd hefyd.

---

**Y Cyfarfod Llawn**

Cyfarfod o'r Senedd cyfan, a gynhelir yn Siambr drafod y Senedd. Y Llywydd sy'n cadeirio'r Cyfarfod Llawn a dyma'r prif fforwm i Aelodau o'r Senedd gyflawni eu rôl fel cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.

---

**Y Llywydd**

Y Llywydd yw'r person sy'n cadeirio dadleuon yn y Senedd, yn galw Aelodau o'r Senedd i siarad ac yn cadw trefn yn y Siambr.

---

**Ymgeisydd**

Rhywun sy'n sefyll mewn etholiad i gael ei ethol fel Aelod o'r Senedd (AS).

## Gwaith ymchwil ar-lein

Dyma restr o rai gwefannau defnyddiol y gelli di eu defnyddio i ddysgu mwy am y Senedd.

- **www.senedd.cymru**
- **www.senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio**
- **www.senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd**
- **www.senedd.cymru/pwyllgorau**
- **www.llyw.cymru/aelodaur-cabinet-gweinidogion**

